

[www.lessonstudy.co.uk](http://www.lessonstudy.co.uk)



Llawlyfr ymchwil

# Astudiaeth Gwers



Peter Dudley<sup>©</sup>



WWW.LESSONSTUDY.CO.UK

PETER DUDLEY ©

Mae'r llyfryn hwn yn ganllaw ar sut i ddefnyddio ac arwain Astudiaeth Gwers er mwyn ymchwilio a gwella dysgu, addysgu a'r cwricwlwm. Mae'n defnyddio amrywiad agos o Astudiaeth Gwers Siapaneaidd a ddatblygwyd dros 20 mlynedd yn Lloegr o'r enw 'Ymchwil Astudiaeth Gwers'. Yr agweddau allweddol sy'n nodweddu ymchwil Astudiaeth Gwers yw:

- Y defnyddio o **'ddisgyblion achos'** sy'n galluogi'r grŵp Astudiaeth Gwers 'weld' a chanolbwyntio ar agweddau allweddol ar ddysgu disgyblion.
- Defnyddio **cyfweiliadau disgyblion** i helpu i ddirnad safbwynt y disgyblion ar eu dysgu yn y gwersi ymchwil.
- Datblygu **dilyniannau o wersi ymchwil ailadroddus** yn hytrach na dim ond un.

Mae Astudiaeth Gwers yn ffurf benodol iawn o ymchwil gweithredu yn y dosbarth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dysgu, addysgu a'r cwricwlwm. Mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn Siapan ers y 1870au. Mae Astudiaeth Gwers felly rhyw 70 mlynedd yn hŷn nag ymchwil gweithredu.

Mae Astudiaeth Gwers yn fath o ymchwil gweithredu dosbarth cydweithredol gan grŵp o athrawon. Maent yn adolygu arferion, maent yn ymchwilio i ac yn ystyried dewisiadau amgen neu arloesi, gan astudio sut mae eu disgyblion yn dysgu, gan addasu a hogi eu dulliau newydd. Maen nhw'n ffurfio cymunedau dysgu athrawon clos wrth iddynt wneud hynny.

Cymryd rhan mewn ymholiadau cydweithredol i wella addysgu a dysgu yw'r un peth mwyaf effeithiol y gall arweinydd ysgol ei wneud i wella canlyniadau addysgol ddisgyblion. (Robinson et al., 2009)

Dim ond yn y ganrif hon a ddaeth Astudiaeth Gwers yn boblogaidd yn y Gorllewin yn dilyn llwyddiant ymchwilwyr o'r Unol Daleithiau wrth ddatblygu dealltwriaeth ddofn mewn athrawon o addysgeg, o'u pwnc ac o'u disgyblion fel dysgwyr. Mae hyn yn arwain at safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol gan ddisgyblion Siapan o'u cymharu â rhai grwpiau tebyg o ddisgyblion yn yr Unol Daleithiau (Stigler a Hiebert, 1999; TIMSS, 1999).

Yn Asia mae defnydd eang o Astudiaeth Gwers y tu hwnt i Siapan. Yn y Gorllewin defnyddiwyd Astudiaeth Gwers i ddechrau yn yr Unol Daleithiau ac mae'n lledaenu'n gyflym yn Ewrop a'r Amerig.

Mae Astudiaeth Gwers wedi'i defnyddio'n llwyddiannus yn y DU i wella dysgu, addysgu a'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac i ddatblygu strategaethau addysgeg ehangach fel asesiad dysgu a lleferydd. Yn ystod cylch ymchwil Astudiaeth Gwers mae tri athro neu athrawes (neu bâr hyd yn oed) yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio data maen nhw wedi'i gasglu o asesiad beunyddiol a chyfnodol er mwyn cytuno ar bwyslais ar gyfer dysgu a chynnydd disgyblion
- Astudio a chloriannu ar y cyd deunyddiau'r cwricwlwm y maen nhw'n eu defnyddio gan ymchwilio y tu hwnt i'r rhain i fireinio'r pwyslais a nodi dulliau o fynd i'r afael â'r angen hwnnw (yn aml gyda mewnbwn arbenigol) y mae cwestiwn neu gynnig ymchwil yn deillio ohono
- Adnabod tua thri 'disgybl achos'. Gallai pob un gynrychioli grŵp o ddysgwyr yn y dosbarth.
- Cynllunio 'gwersi ymchwil' ar y cyd sy'n defnyddio ac yn datblygu ac yn astudio'n

fanwl effeithiau'r dull newydd hwn – gan gadw mewn cof y tri disgybl achos.

- Addysgu a sylwi ar y cyd ar y wers ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddysgu a chynnydd disgyblion achos ac addasu a mireinio addysgu dros sawl gwersi ar sail eu dadansoddiad o bob un.
- Cyfweild â detholiad o ddisgyblion er mwyn cael eu barn am y wers ymchwil.
- Cynnal trafodaeth gwersi ôl-ymchwil gan ddadansoddi sut ymatebodd y disgyblion achos i'r dechneg, pa gynnydd a wnaethant, pa dystiolaeth o ddysgu neu o anawsterau gyda dysgu a ddangoswyd ganddynt a'r hyn y gellir ei ddysgu am y ffordd y mae'r dull addysgu neu ddysgu yn cael ei ddatblygu ymhellach – y tro nesaf.
- Rhannu'r canlyniadau'n ffurfiol gyda chynulleidfa ehangach o athrawon eraill - mewn cyflwyniad, drwy arddangos neu drwy hyfforddi.

Caiff canllawiau ar gyfer pob un o'r camau hyn eu dadansoddi yn adrannau'r llyfryn hwn, gan gyfeirio at yr hyn y gwyddom am sut mae Astudiaeth Gwers yn gweithio mewn lleoliadau ledled y byd. Mae'r ddwy adran olaf yn rhoi syniadau o ran sut y gall arweinwyr ysgol:

- Greua amser ar gyfer Astudiaeth Gwers a'i ymgorffori i systemau eu hysgol
- Defnyddio ymarferwyr blaenllaw i gefnogi'r dysgu proffesiynol gydag Astudiaeth Gwers a'r model ymchwil Astudiaeth Gwers fel llwyfan ar gyfer hyfforddi mewn ysgol.



## Yr awdur

Cyflwynodd Pete Dudley Astudiaeth Gwers (AG) i'r DU gan arwain ei Astudiaeth Gwers gyntaf yn 2001. Yn ddiweddarach rheddodd gynllun peilot Astudiaeth Gwers cenedlaethol (2003-5), a ariannwyd gan yr ESRC, y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion a CFBT. Mae'r model yn amrywiad agos ar yr Astudiaeth Gwers Siapaneaidd o'r enw Ymchwil Astudiaeth Gwers. Mae'n parhau i esblygu.

Bu Pete yn llywydd Cymdeithas Astudiaethau Gwers y Byd ers 2017. Mae'n cefnogi ymchwil Astudiaeth Gwers yn y DU a Siapan a bu'n cynnal ymchwil helaeth i Astudiaeth Gwers ym Mhrifysgol Caergrawnt lle mae bellach yn rhedeg gradd Meistr mewn Arweinyddiaeth Addysgol a Gwella Ysgolion [www.educ.cam.ac.uk](http://www.educ.cam.ac.uk) Hyrwyddodd ddysgu proffesiynol drwy Astudiaeth Gwers mewn miloedd o ysgolion fel Cyfarwyddwr Strategaeth Genedlaethol Gynradd y llywodraeth (2006-11) ac yn ddiweddarach fel Cyfarwyddwr Addysg yn Camden, Llundain. (2013-19). Sefydlodd

[www.LessonStudy.co.uk](http://www.LessonStudy.co.uk) yn 2011. Mae ei waith yn datblygu Astudiaeth Gwers yn rhyngwladol wedi canolbwyntio ar Ewrop ond hefyd Singapore, Palesteina, Kazakhstan, Gwlad Thai ac Indonesia. Mae'n Uwch Aelod o Hughes Hall Caergrawnt, o Oracy Caergrawnt yn aelod o fwrdd golygyddol yr International Journal for Lesson and Learning Studies (Emerald). Mae'r llyfryn hwn wedi ei gyfieithu i saith o ieithoedd.

## Ynglŷn â'r llawlyfr hwn

Mae'r llawlyfr yma wedi bod yn ffon fara i filoedd o ysgolion wrth iddynt sefydlu'r model Astudiaeth Gwers yn llwyddiannus. Mae'r pumed rhifyn hwn wedi'i ddiweddarau gyda'r canfyddiadau a'r datblygiadau ymchwil diweddaraf. Mae'n darparu adrannau newydd sy'n edrych ar Astudiaeth Gwers fel mecanwaith pwerus ar gyfer dysgu athrawon, fel modd o ffurfio cymunedau dysgu ac fel adnodd sy'n gwthio dysgu yn ei flaen ac yn gwella system sy'n harneisio barn a llais disgyblion ac sy'n canolbwyntio ar ddysgu a chyflawniad disgyblion.

## Cydnabyddiaethau

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys deunydd gwreiddiol ac yn tynnu ar ddeunydd a ysgrifennais hefyd ar gyfer y Strategaethau Cenedlaethol (2008, 2010), y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion (2003, 2005), y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) a CFBT.

Cynhaliwyd yr ymchwil a dynnwyd arno yn y cyhoeddiad hwn gan yr awdur rhwng 2003 a 2011 ym Mhrifysgol Caergrawnt gyda chymorth cymrodoriaeth a ddyfarnwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac a ddaeth yn ail yng Ngwobrau Traethodau Doethuriaeth Cymdeithas Ymchwil Prydain (BERA) 2012. Mae hefyd yn tynnu ar ymchwil datblygu a gynhaliwyd gan Gaergrawnt gyda Bwrdeistref Llundain Camden ac a ariannwyd gan Awdurdod Llundain Fwyaf (2013-17).

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-awduron a phartneriaid LSUK Jean Lang a Haiyan Xu sydd wedi chwarae rhannau enfawr yn esblygiad a datblygiad YMCHWIL ASTUDIAETH GWERS ac LSUK.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl athrawon, penaethiaid, staff awdurdodau lleol, academyddion, llunwyr polisi yn y DU ac ar draws y byd sydd wedi galluogi a chyfrannu at ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o Astudiaeth Gwers.

Mae pob Astudiaeth Gwers yn ymdrech ar y cyd i ychwanegu at wybodaeth pob person proffesiynol, pob lleoliad a phob diwylliant. Mae wedi ei sylfaenu ar haelioni proffesiynol; ymddiriedaeth; trylwyredd; asiantaeth gyfunol systematig a chymuned. Heb y rhinweddau a'r gwerthoedd hyn ni fyddai'r hud a'r manteision sydd gan y model Astudiaeth Gwers i'w cynnig yn digwydd.

## Pete Dudley

Neuadd Hughes, Caergrawnt, 2020



## a. Pam cynnal Astudiaeth Gwers

Wel, yn gyntaf oll oherwydd bod Astudiaeth Gwers yn cyfuno holl nodweddion dysgu proffesiynol sydd yn gwella dysgu ac addysgu fwyaf (Cordingley et al., 2004). Dyma nhw:

- Mae'r dysgu proffesiynol yn digwydd dros amser – ac nid yw'n ddigwyddiad untro
- Mae'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth go iawn gyda disgyblion go iawn
- Mae'n cynnwys elfen o ymholiad cydweithredol neu arbrofi rhwng athrawon sy'n ceisio datrys problem neu wella dull gweithredu. Mae Hargreaves (2012) yn defnyddio'r term '*datblygiad proffesiynol ar y cyd*' - DPC yn hytrach na DPP.

Mae Astudiaeth Gwers yn helpu athrawon i wneud y canlynol:

- Arsylwi ar ddysgu disgyblion gydag eglurder arbennig.
- Gweld y gwahaniaeth rhwng yr hyn maen nhw'n rhagweld fydd yn digwydd pan fydd disgyblion yn dysgu a beth sy'n digwydd mewn gwirionedd.
- O ganlyniad, maent yn deall sut i ddylunio, cynllunio a sicrhau bod dysgu'n llawer agosach i anghenion disgyblion.
- Gwneud hyn o fewn cymuned ddysgu-addysgu gefnogol sydd wedi ymrwmo i gynnig gofod diogel i fentro oherwydd bod pawb yn teimlo bod y grŵp Astudiaeth Gwers yn eu gwerthfawrogi ac mae wedi ei werthfawrogi ganddynt.
- Ymchwilio, adlewyrchu, dadansoddi a dysgu ar y cyd sut i help eu disgyblion i ddysgu a chyflawni (Dudley, P. 2013).
- Newid unrhyw addysgu a chwricwlwm dilynol er mwyn cefnogi dysgu yn well a rhannu'r canlyniad gan gynnwys ymarferwyr arbenigol a chyfoedion llai profiadol er mwyn sbarduno a gwneud y gorau o wybodaeth newydd.

Mae ymchwil Astudiaeth Gwers yn creu ffordd unigryw y gall athrawon ddysgu a datblygu eu gwybodaeth ymarfer gyda'i gilydd, sy'n effeithio ar ddysgu eu disgyblion ac yn meithrin gallu eu hysgol i wella ymhellach.

### *Dysgu athrawon a datblygu gwybodaeth ymarferol*

Y ffaith syml yw bod athrawon llwyddiannus i raddau helaeth yn ddall i lawer - hyd yn oed *i'r rhan fwyaf* efallai - o'r hyn sy'n digwydd yn eu hystafelloedd dosbarth. Nid methiant yw hyn! Canlyniad prosesau sydd wedi eu galluogi i fod yn athrawon llwyddiannus.

Dyna pam fod ystafelloedd dosbarth ymhlith yr amgylcheddau gwaith mwyaf cymhleth, anrhagweladwy, byrlymus sy'n bodoli. Mae'r wybodaeth a gynhyrchir gan 30 neu fwy o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwers yn enfawr. Felly hefyd pa mor gyflym y cyflwynir gwybodaeth i athro neu athrawes. Mae Lewis (1999) yn dyfynnu ymadrodd Siapaniaidd 'mae gwers fel afon sy'n llifo'n gyflym'.

Canfu astudiaethau o sut mae athrawon yn ymdopi â'r cymhlethdod a'r cyflymder hwn (Wragg et al., 1996) fod athrawon yn gwneud dros 30% yn fwy o benderfyniadau na gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r rhai sy'n goroesi eu tair blynedd gyntaf ac yn dod yn athrawon da, dim ond yn gwneud hynny oherwydd bob tro y maent yn darganfod ffordd newydd o reoli sefyllfa addysgu gymhleth neu anodd, maent yn prysur fewnoli'r wybodaeth ymarfer newydd ar ffurf y gellir tynnu arni'n *anymwybodol* pan fydd ei hangen nesaf yn yr ystafell ddosbarth. Mae Gwybodaeth Cynnwys Addysgol yn y ffurf ddealedig hon yn anweledig i'n meddwl ymwybodol ac felly mae'n tueddu i fod yn wybodaeth 'nad ydym yn gwybod ein bod yn gwybod'. Mae'n debyg i'n gwybodaeth am sut i reidio beic. Mae ond yn amlygu ei hun pan mae ei angen a'r mwya' rwyd ti'n ceisio meddwl yn ymwybodol sut wyt ti'n defnyddio'r wybodaeth honno wrth reidio beic, y mwyaf tebygol wyt ti o ddisgyn oddi ar y beic. Ond mae'n gyflym 'yn dod nôl atat ti' pan fydd arnat ei heisiau - hyd yn oed ar ôl amser hir - fel reidio beic!

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o anifeiliaid, mae bodau dynol wedi dysgu delio â llawer o wybodaeth drwy hidlo. Er enghraifft, rydyn ni'n mynd ati i roi sylw i gyfran fechan iawn o'r synau rydyn ni'n eu 'clywed' yn dechnegol. Rydym wedi esblygu dulliau o hidlo gwybodaeth eithafol a dal sylw ar yr hyn sy'n bwysig neu'n annisgwyl iawn yn unig. Mae'r mecanweithiau hidlo hyn wedi eu galluogi i ganolbwyntio a phrosesu'r hyn yr ydym wedi'i nodi'n bwysig wrth gyflawni ein nod. Yn yr ystafell ddosbarth, rydyn ni'n gwneud yr un peth. Rydym yn canolbwyntio ar yr agweddau pwysicaf o'r hyn sy'n digwydd ar unrhyw un adeg, gan hidlo llawer o ddigwyddiadau a gwybodaeth eithafol. Rydym yn delio'n gyflym â Gwybodaeth Cynnwys Addysgol newydd pwysig a enillwyd drwy ei storio ar unwaith ac yn *anymwybodol* ar ffurf dawel. Mae hyn i gyd yn gadael i'n cof gweithio ymwybodol yn rhydd i ddelio â'r pethau pwysig nesaf sydd gennym wedi eu blaenoriaethu yn y wers. Mae ein prosesau *anymwybodol* yn cofnodi ein bod yn gwybod hyn ac yn gallu adfer yr wybodaeth i'w defnyddio ar unwaith – ond nid ydym yn ei adnabod yn ymwybodol (ac eithrio pan welwn ein hunain yn dysgu ar fideo ac yn meddwl 'Ai dyna fi mewn gwirionedd?')



Gan fod athrawon yn tueddu i ddysgu ar wahân fel gweithwyr proffesiynol unig gyda'u dosbarthiadau, anaml y mae athrawon eraill yn cael cyfle i weld gwybodaeth ymarfer ddealedig o fathau eraill yn dod i'r amlwg. A phan welir athro neu athrawes yn dysgu gan weithiwr proffesiynol arall mae'n fwy tebygol o fod yng nghyd-destun dyfarniad o berfformiad nag mewn cyd-destun dysgu proffesiynol. Mewn cyd-destunau o'r fath mae athrawon yn tueddu i gadw at y cyfarwydd yn hytrach na mentro. Fodd bynnag, mae ymchwil Astudiaeth Gwers yn creu manau diogel lle gall athrawon fentro gyda'i gilydd a gweithio'n ddi-ofn ar feysydd o'r cwricwlwm y maent yn teimlo'n llai hyderus neu'n ddiogel yn eu cylch. Mae 'Rheolau Trafod Sylfaenol' (Mercer, 2010) a'r Protocol Grŵp ymchwil Astudiaeth Gwers (gweler tudalen 7) yn ei gwneud mor ddiogel i ddysgu gyda'i gilydd fel bod aelodau o grwpiau ymchwil Astudiaeth Gwers yn dechrau datrys problemau addysgu gyda'i gilydd gan ddefnyddio 'sgwrs archwiliol' (Mercer, 1995) ac sy'n golygu dysgu athrawon math pwerus o ddysgu sy'n eu galluogi i wella dysgu eu disgyblion yn well na mathau eraill o ddysgu proffesiynol a astudir. (Dudley et al, 2019b; Vermunt et al., 2019).

Mae Astudiaeth Gwers yn helpu athrawon profiadol a llai profiadol i ddysgu'n broffesiynol. Oherwydd, trwy ei brosesau o gynllunio ar y cyd, arsylwi ar y cyd a dadansoddi ar y cyd, rydym gyda'n gilydd yn dychmygu ac yn rhagweld dysgu disgyblion. Felly, rydyn ni'n cael gweld agweddau ar ddisgybl yn dysgu drwy lygaid pobl eraill yn ogystal â thrwy lygaid ein hunain, ac rydyn ni'n cymharu dysgu gwirioneddol a welwyd yn y wers ymchwil gyda'r dysgu a ddychmygwyd gennym pan wnaethom ei gynllunio. Mae hyn yn ein gorfodi i ddod yn ymwybodol o bethau na fyddem fel arfer yn ymwybodol ohonynt chwaith oherwydd y byddem yn ei hidlo neu oherwydd y byddai'n cael ei drin trwy ein system wybodaeth ddealedig.

### ***Pam mae 'disgyblion achos', cyfweiliadau disgyblion a dylunio gwersi ymchwil yn bwysig***

Mae ymchwil Astudiaeth Gwers yn defnyddio 'disgyblion achos' mewn astudiaethau gwers er mwyn optimeiddio hyn. Mae llawer wedi dweud bod canolbwyntio ar anghenion dysgu ac felly'n dod yn fwy ymwybodol o anghenion dysgu ac arferion 'disgyblion achos' unigol yn eu gwneud yn llawer mwy ymwybodol o unigolrwydd eu holl ddisgyblion. Felly yn lle addysgu rhyw ganol annelwig gyda grwpiau o ddisgyblion uwchradd ac is yn cyflawni bob ochr, mae Astudiaeth Gwers yn helpu athrawon i fod yn fwy ymwybodol o anghenion unigolion yn eu dysgu wedyn, ac i wneud hynny heb gael eu syfrdanu gan y profiad. A dweud y gwir mae pobl yn dweud 'Sylweddolais am y tro cyntaf ei bod hi'n dysgu mewn ffordd wahanol iawn i sut roeddwn i'n meddwl, a dwi'n sylweddoli bod yna dri arall fel hi yn fy nosbarth i'. Gall Astudiaeth Gwers fod yn ddefnyddiol iawn felly i ddarganfod plant sy'n tanberfformio, sydd ag anghenion penodol neu'n hanu o grwpiau o ddysgwyr sydd yn tangyflawni fel plant o aelwydydd difreintiedig neu mewn gofal fel arfer, ac yna gwella eu dysgu. Mae hefyd yn rhoi 'gweledded fforensig' i'r ysgol ohonynt (Dudley et al. 2019b) sydd ei angen os yw athrawon am fonitro eu dysgu a'u cynnydd a sicrhau eu bod yn llwyddo.

Mae fy ymchwil (Dudley 2013) yn dangos y gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod prosesau bwriadol atgyrchol ymchwil Astudiaeth Gwers ynghyd â'i ddysgu cydweithredol, seiliedig ar drafod, yn helpu i ddatgloi cronfeydd anweledig o wybodaeth ymarfer dealedig (PCK) a gronwyd gan athrawon profiadol y bu iddynt, yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn dysgu, ddefnyddio'r gallu anymwybodol i anwybyddu gweithgarwch dosbarth nad oedd o bwys 'ymwybodol' uniongyrchol ac yn hytrach defnyddio proses rheoli gwybodaeth ddealedig ar gyfer storio a chofio'r gweithgaredd hwnnw. Mae camau bwriadol y broses ymchwil Astudiaeth Gwers yn gwyrddio'r broses hon ac mewn ffordd reoledig yn caniatáu i'r agweddau cudd hynny o wybodaeth berthynol i sut mae disgyblion yn dysgu amlygu ei hun i'r meddwl ymwybodol drachefn ac (yng nghyd-destun grŵp ymchwil Astudiaeth Gwers effeithiol) i allu ei adalw. Mae disgyblion achos, cyfweiliadau disgyblion a deinameg dysgu-ymddiddan y grŵp ymchwil Astudiaeth Gwers yn ddwy o elfennau pwysicaf ymchwil Astudiaeth Gwers ar gyfer galluogi'r broses ryfeddol hon i ddigwydd. Trydedd agwedd yw'r rhagdybiaeth y bydd canfyddiadau gwersi ymchwil yn arwain at berffeithio a mireinio dyluniadau dysgu ymhellach mewn gwersi ymchwil dilynol. Mae mwy o wybodaeth gefndirol, tystiolaeth ymchwil yn ogystal ag arweiniad ac adnoddau ar gyfer hyfforddwy ac arweinwyr ysgolion ar sut i wneud y gorau o'r agweddau hyn ar ddysgu athrawon yn hanfodion y model yr Astudiaeth Gwers ar gael yma.

Un ffenomenon yr wyf wedi'i arsylwi dro ar ôl tro yn fy nghanfyddiadau ymchwil ac yn ystod astudiaethau gwers yw y bydd grŵp Astudiaeth Gwers yn darganfod bod un o'u tri 'disgybl achos' yn gweithredu ar lefel wahanol iawn i'r hyn yr oedd y grŵp wedi meddwl. Darganfyddir bod disgyblion mewn grwpiau cyrhaeddiad isel yn gweithredu ar lefelau grwpiau canolraddol, neu hyd yn oed yn uwch. Mewn rhai achosion mae disgybl wedi cael ei roi mewn grŵp cyrhaeddiad isel (grwpiau go iawn neu grwpiau sy'n bodoli ym meddyliau eu hathrawon) ers blynyddoedd. Gofynion isel, disgwyliadau isel a her isel yw cnul marwolaeth ar gyfer cynnydd disgyblion, cymhelliant, dysgu, a chyflawniad ac mae hyn yn digwydd pan nad yw dysgu yn herio disgyblion - neu'n eu herio'n llawer gormod.

Ar ochr bositif – mae Astudiaeth Gwers yn dod â hyn i'r amlwg, yn helpu plant o'r fath i wneud gwell cynnydd o'r pwynt hwnnw ymlaen yn eu bywydau ysgol.

## Beth yw tystiolaeth effaith Astudiaeth Gwers ar gyrhaeddiad disgyblion?

Dangosodd tystiolaeth a ddefnyddiwyd gan gannoedd o athrawon blaenllaw sy'n gweithio gydag 'ysgolion cyffyrddus' a ddefnyddiodd Astudiaeth Gwers fel dull hyfforddi i wella cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu a mathemateg yn 11 oed, gryn effaith o flwyddyn i flwyddyn (Dudley, 2012). Cafwyd hyd i'r dystiolaeth hon hefyd yng ngwerthusiad annibynnol y Rhaglen Strategaeth Genedlaethol hon (Hadfield et al., 2011). Roedd y prosiect hwn yn cynnwys 'athrawon blaenllaw' arbenigol yn ymuno â'r astudiaethau gwers cychwynnol i helpu gyda gwybodaeth bwnc a PCK. Yn fwy diweddar mae astudiaeth a ariennir gan adran addysg Lloegr o dros 800 o ysgolion (Churches, 2016) yn argymhell ymchwil Astudiaeth Gwers fel un o ddim ond dau ddull dysgu proffesiynol sy'n dangos potensial i gau bylchau cyrhaeddiad tra hefyd yn codi cyrhaeddiad. Canfu astudiaeth sylweddol gan yr EEF o 280 o ysgolion fod athrawon ac arweinwyr mor gadarnhaol am ymchwil Astudiaeth Gwers nes bod llawer yn parhau i'w ymarfer ar ôl i'r astudiaeth ddod i ben. Ar ben hynny, amcangyfrifodd gwerthuswyr y prosiect (Murphy et al. 2017) fod hyd at 40% o'r ysgolion 'grŵp rheoli' wedi bod yn defnyddio Astudiaeth Gwers mewn gwirionedd. Dangosodd treial mathemateg RCT Lewis a Perry (2017) effaith 4.9 i ysgolion gan ddefnyddio dull unfath ond hanner gyda chydannau Astudiaeth Gwers. Mae hyn yn golygu y byddai disgyblion grŵp rheoli sydd â sgoriau cyfartalog wedi cael y sgoriau uchaf pe bai eu hathrawon wedi defnyddio'r model Astudiaeth Gwers.

## Beth yw tystiolaeth effaith Ymchwil Astudiaeth Gwers

Canfu'r prosiect sylweddol 'London Schools Excellence Fund (LSEF)' gyda 96 ysgol yn Llundain bod defnyddio ymchwil Astudiaeth Gwers 'lefel ardal' i helpu datblygu cynlluniau dysgu a dulliau o addysgu Cwricwlwm Cenedlaethol Lloegr 2013 ar gyfer Mathemateg y canlynol:

- (i) cynyddodd ysgolion sy'n defnyddio gwers ymchwil eu safle cenedlaethol tra bod y rhai oedd yn cadw at fesurau traddodiadol yn gostwng
- (ii) roedd disgyblion yn aml yn dod ar draws rhwystrau i ddysgu nad oedd hyd yn oed athrawon profiadol wedi rhagweld ac arweiniodd hyn at ysgolion i barhau i ddefnyddio dulliau ymchwil Astudiaeth Gwers i helpu i lywio asesu a dysgu arfaethedig
- (iii) defnyddiodd ysgolion eu 'gwersi ymchwil' fel esiamplau o fewn eu cynlluniau dysgu ac fel adnoddau anwytho a hyfforddi i staff newydd
- (iv) Roedd arweinwyr ysgol ac athrawon yn gweld gwerth mawr mewn gweithio mewn cyfuniad o ddau gyfarfod dosbarth a chael tymor i astudio'r cwricwlwm, deunyddiau a dulliau o ymdrin â'r agweddau anodd eu dysgu o fathemateg a hefyd i gyflwyno'r astudiaethau gwersi a'r canfyddiadau i eraill
- (v) Helpodd effaith ddiwylliannol y gwaith hwn rhwng ysgolion i ddatblygu cyfoedion a chreu amodau sy'n meithrin datblygiad cymuned ddysgu. Ar ddiwedd y ddwy flynedd a ariennir parhaodd 60 o ysgolion i weithio fel hyn mewn ffordd hunan-drefnedig a chwbl wirfoddol a bu gwelliant parhaus yn eu mathemateg ac yng nghyrhaeddiad disgyblion (Dudley et al 2019a; Dudley et al. 2019b).
- (vi) Helpodd prosiect LSEF i alluogi un grŵp o ysgolion i sefydlu dull mwy parhaol fyth o ddatblygu proffesiynol ar y cyd, gan ffurfio cwmni ysgolion nid er elw o 60 o ysgolion gwladol gwahanol iawn – cynradd, uwchradd, cymuned, academi, ysgol rydd, cymorth gwirfoddol, ysgolion ysbyty ac ysgolion arbennig. O fewn tair blynedd i ffurfio hyn cafodd pob ysgol ei graddio'n dda neu'n rhagorol gan reoleiddiwr y llywodraeth - Ofsted.


Yn ogystal â'r holl ddatblygiad hwn o ran y model ymchwil Astudiaeth Gwers mewn ysgolion, ar hyn o bryd mae trawsnewidiad cenedlaethol mewn sefydliadau addysg uwch a llawer o Gyngheiriau Ysgolion Addysgu (yn enwedig mewn perthynas ag Addysg Gychwynnol Athrawon. Defnyddir ymchwil Astudiaeth Gwers hefyd gan athrawon sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig i greu asesiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel ac i ddatblygu cwricwla priodol, hygyrch.

Mae systemau ysgolion mewn awdurdodau lleol a MATS yn defnyddio ymchwil Astudiaeth Gwers yn gynyddol i wella safonau ar draws ysgolion ac mewn cylchoedd polisi mae yna ddi-ddordeb cynyddol y potensial ar gyfer ymchwil 'agos at ymarfer' o ansawdd uchel (y mae ymchwil Astudiaeth Gwers yn ei grisialu) i glosio at ymchwil a datblygu polisi.

## b. Rhoi Cychwyn ar Astudiaeth Gwers

Ffig. 1 Y Broses Ymchwil Astudiaeth Gwers

'Fe wnaeth fy ngalluogi i weld pethau yn fy stafell ddosbarth yn wahanol'



Mae Ffigur 1 yn nodi'r broses YMCHWIL ASTUDIAETH GWERS. Y cam cyntaf yn y cylch coch yw'r cyfnod astudio cychwynnol lle mae'r grŵp AG yn sefydlu'r ffocws ar gyfer yr ymchwil ac yn pennu'r cynnig ymchwil a chwestiynau ymchwil (Gweler tudalen 10). Mae pob un o'r blociau llorweddol yn gylch gwera ymchwil o'r Astudiaeth Gwers. Nid yw ymchwil Astudiaeth Gwers yn dod i ben ar ôl un wers ymchwil yn unig. Yr hyn sy'n digwydd yn y wers ymchwil gyntaf (RL1) yw eich bod yn aml yn cael eich galluogi i weld bylchau rhwng y disgyblion a gwrthrych y dysgu yn llawer cliriach - oherwydd proffwydoliaethau a gwirio disgyblion. Mae hyn yn eich galluogi i ddylunio ail wers (RL2) lle rydych chi'n gallu cael cyfatebiaeth well rhwng dull ac anghenion. Yng ngwers ymchwil 3 rydych chi'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n weddill a hefyd yn mireinio a hogi agweddau llwyddiannus ar wers ymchwil 2 i'w profi ymhellach. Erbyn hyn mae'r mwyafrif helaeth o grwpiau ymchwil Astudiaeth Gwers wedi datblygu rhywbeth a fydd yn cael ei ymgorffori yn eu haddysgu yn y dyfodol, eu cynlluniau dysgu ac y gellir eu rhannu ag eraill.

**Sylwer:** Nid yw gwera ymchwil 2 a 3 yn ailbobiad diwygiedig o wers ymchwil 1. Maen nhw'n wersi gwahanol. Yn gyffredinol gydag ymchwil Astudiaeth Gwers byddwch yn defnyddio'r un dosbarth i ddatblygu agwedd o ddysgu (megis cysyniad, sgil neu bwynt deall) y mae angen ei dysgu i'r dosbarth. Felly, mae gwera ymchwil yn codi a datblygu'r agwedd hon mewn gwera dilynol. Er enghraifft, efallai eich bod wedi cyflwyno sgil/cysyniad yng ngwers ymchwil 1 ac yna yn ei datblygu a / neu ei ddyfnhau yng ngwers ymchwil 2 a 3. Y peth gorau yw gwneud hyn mewn cyfnod o dair wythnos. Yn anaml iawn gall grwpiau ymchwil Astudiaeth Gwers ddylunio gwera ymchwil i'w dysgu mewn tri dosbarth cyfochrog o fewn ychydig wythnosau i bob un (efallai mewn ysgol mynediad chweched dosbarth). Yn yr achos hwn gallant yn wir weithio ar ailgynllunio'r un wers. Mae'r fersiwn flaenorol yn aml yn esgor ar fwy o fanteision wrth i ni weld y datblygiad dysgu dros amser.

## Beth sydd wedi gweithio'n dda?

### Fel "arweinydd ysgol"

Dewiswch grŵp o athrawon - mae tri yn gweithio'n dda - sy'n debygol o fwynhau'r her o ddechrau dull dysgu proffesiynol newydd yn yr ysgol. Mae Astudiaeth Gwers yn gweithio'n dda pan fo aelod o'r uwch dîm ynghlwm, a bod cymysgedd o brofiad dysgu gan yr athrawon.

Gall cynnwys arbenigwr pwnc fod yn allweddol. Os yw maes ffocws yr Astudiaeth Gwers yn flaenoriaeth i'r holl ysgol a bod arbenigedd mewnol yn gyfyngedig mae'n bosibl dod ag arbenigwr yno i ymuno â grŵp Astudiaeth Gwers am o leiaf un gyfres YMCHWIL ASTUDIAETH GWERS o dair gwers ymchwil a'r sesiwn 'agored' neu rannu gwybodaeth (gweler isod T. 8).

Trefnwch gyfarfod gyda nhw i amlinellu disgwyliadau a rheolau sylfaenol sy'n galluogi pobl i deimlo'n rhydd i **fentro** a pheidio â theimlo eu bod yn cael eu gwyllo. Mewn Astudiaeth Gwers mae pob aelod o'r grŵp yn ennill statws cyfartal – fel dysgwyr proffesiynol (gweler protocol y grŵp dros y dudalen)

Creu amser iddynt adolygu'r deunyddiau a'r dulliau gweithredu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, archwilio gwaith plant ac ymchwil eto i nodi neu ddatblygu dulliau y byddwch yn eu treialu ar y cyd.

Defnyddiwch ddiwyg Astudiaeth Gwers gyffredin i gynllunio gwersi, arsylwi a dadansoddi. (Mae enghreifftiau y gallwch eu defnyddio yn y llyfryn hwn) a hefyd gwneud yn siŵr bod y nodiadau maen nhw'n eu cadw o'u harsylwadau a'u trafodaethau yn ddarllenadwy ac yn llawn.

Defnyddiwch Lyfr Gwaith ymchwil Astudiaeth Gwers (gallwch ei lawrlwytho o [www.lessonstudy.co.uk](http://www.lessonstudy.co.uk) fel ffordd o'u helpu i reoli'r broses Astudiaeth Gwers a'r holl ddata y maent yn ei gasglu

Rhowch amser *penodol* i athrawon (awr o leiaf) i gynllunio'r wers ymchwil gyntaf.

Gwarchod eu hamser ar ddiwrnod y wers ymchwil a gwneud yn siŵr y gallant gael trafodaeth ar ôl gwers yn syth neu'n fuan ar ôl cyflawni'r wers ymchwil yn ddigon hir i ddechrau ar gynllunio'r wers ymchwil nesaf.

Cymerwch ddiddordeb didwyll mewn sut mae'r broses yn mynd.

Gwnewch yn siŵr bod gan y grŵp Astudiaeth Gwers gyfleoedd pwrpasol i rannu'r dulliau y maent wedi'u datblygu gyda chydweithwyr eraill - cyfarfod staff, cyfle hyfforddi neu wers ymchwil agored.

Defnyddiwch yr aelodau hyn o'r grŵp fel Hyrwyddwyr Astudiaeth Gwers i gynnull a datblygu'r grwpiau Astudiaeth Gwers nesaf .

Datblygu a chadw at brotocol Grŵp Astudiaeth Gwers cyn cychwyn arni (Gweler yr enghraifft isod).

### Nodiadau

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---



## Ymchwil Astudiaeth Gwers: Protocol Grŵp Dysgu Awgrymadwy

Datblygwyd y protocol hwn yn ystod y peilot cenedlaethol i helpu i greu disgwyliadau cyffredin ymhlith aelodau'r grŵp Astudiaeth Gwers. Mae mabwysiadu protocol o'r fath yn helpu'r grŵp i ffurfio perthynas waith dda sy'n helpu aelodau i rannu syniadau, pryderon, heriau a meddyliau heb ofni beirniadaeth. Mae'r holl gymorth hwn yn defnyddio 'sgwrs archwiliol' gan y grŵp sydd yn ei dro yn cynorthwyo athrawon i 'ddysgu mewn modd ystyrlon' (Vermunt et al., 2019) a darganfod a rhannu gwybodaeth ymarfer newydd.


Ar bob cam yn yr Astudiaeth Gwers hon byddwn yn gweithredu yn ôl y canlynol:

- Mae pob aelod o'r grŵp yn gyfartal fel dysgwyr beth bynnag fo'u hoedran, profiad, arbenigedd neu rôl yn yr ysgol (neu y tu hwnt)
- Mae cyfraniadau pawb yn cael eu trin â pharch cadarnhaol diamod. Nid yw hyn yn golygu na fyddant yn destun dadansoddi, amheuaeth na her, mae'n golygu na fydd unrhyw un yn cael ei wneud i deimlo'n ffôl am fentro awgrym. Awgrymiadau yn aml sy'n gwneud i chi deimlo'n ffôl neu'n fregus sydd o'r gwerth mwyaf ac yn arwain at y dysgu mwyaf.
- Byddwn yn cefnogi pwy bynnag sy'n dysgu'r gwers(i) ymchwil ac yn gwneud arsylwadau ffyddlon, gan gofnodi cymaint ag sy'n bosibl yr hyn mae disgyblion yn ei ddweud a gwneud
- Byddwn yn defnyddio cyfarpar cyffredin ar gyfer Astudiaeth Gwers – cynllunwyr, sbardunau i gyfweld disgyblion a dulliau o rannu canlyniadau â'i gilydd
- Byddwn yn defnyddio gwaith y disgyblion a sylwadau cyfweld i lywio'r drafodaeth ar ôl gwers ochr yn ochr ag arsylwadau
- Byddwn yn defnyddio'r llif trafod ôl-wers (gweler tudalen 14), gan ddechrau drwy drafod beth wnaeth pob disgybl achos o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd gennym a gadael i'r drafodaeth lifo oddi yno (Gweler tudalen 13)
- Byddwn yn gwrandao ar ein gilydd ac arnom ni ein hunain pan fyddwn yn siarad ac yn adeiladu ar y drafodaeth, gan wneud awgrymiadau, codi rhagdybiaethau, ymhelaethu, cymhwyso ac ar bob adeg bod yn atebol i'n nodau gwers, ein disgyblion achos a'n data arsylwi a data gwersi ymchwil eraill
- Byddwn yn rhannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu – ein gwybodaeth am arferion newydd - gyda'n cydweithwyr mor gywir ac mor eglur ag y gallwn ac yn y fath fodd y gallant elwa arno a rhoi cynnig arni eu hunain
- Byddwn yn rhannu nodau a deilliannau ein HAstudiaeth Gwers gyda'n disgyblion yn briodol, ar sail oeddrannau a chyfnodau datblygu. Bydd eu barn, eu syniadau a'u safbwyntiau yn cael eu trin â pharch cadarnhaol cyfartal.

Wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan aelodau grŵp yr Astudiaeth Gwers.



Ffigur 2. Dod â'ch dadansoddiad o'ch cwricwlwm a dysgu eich disgyblion at ei gilydd i ffurfio eich gosodiad ymchwil.



Mae Ffigur 2 yn dangos dod â'r astudiaethau rydych chi wedi'u gwneud at ei gilydd am eich cwricwlwm, deunyddiau ac addysgu, eich dadansoddiad o ddysgu ac anghenion eich disgyblion yn ogystal ag unrhyw ddulliau y mae eich ymchwil yn awgrymu y gallai fod yn ffrwythlon wrth wella agweddau ar y rhain. Dyma sail eich ffocws a nod eich ymchwil. Bydd eich cwestiwn ymchwil fel arfer yn symud ymlaen o 'Sut allwn ni wella dysgu ein disgyblion mewn (maes cwricwlaidd) er mwyn iddynt wneud cynnydd gwell i 'A ellir defnyddio (y dull(iau) gweithredu a dreialwyd yn ein gwersi ymchwil) i wella dysgu ein disgyblion o (maes cwricwlaidd)?'

Mae ysgolion Siapan yn rhoi llawer mwy o sylw i'r mathau o berson y maen nhw am i'w disgyblion dyfu iddo. Mae'r rhain wedi'u gosod yn eu nodau a'u gweledigaeth a byddant fel arfer yn un o'r meini prawf a ddefnyddir gan grwpiau Astudiaeth Gwers wrth wneud eu hymchwil. Felly, os ydynt am i'w disgyblion ddatblygu 'cariad at fyd natur' gall hyn fod yn agwedd ar 'well dysgu' *waeth beth* yw'r maes cwricwlaidd.

Ffigur 4. Materion ar gyfer arweinwyr ysgol wrth optimeiddio dysgu drwy reoli arbenigedd yn yr Astudiaeth Gwers.

**Rheoli arbenigedd Astudiaeth Gwers: arbenigwyr, cyd-weithwyr gwybodus a sylwebwyr arbenigol**

Mae'n debyg y bydd tri athro amhrofiadol sy'n cynnal Astudiaeth Gwers yn gwneud fawr o niwed ond yn annhebygol o ddatblygu fel y gallen nhw gydag arbenigwr ym maes y cwricwlwm, grŵp oedran (neu nodwedd arall yr Astudiaeth Gwers dan sylw) yn ymuno â'r grŵp fel aelod llawn. Os nad yw'r arbenigedd perthnasol ar gael yn yr ysgol yna mae'n werth dod â rhywun arall gwybodus i ymuno â'r grŵp. Mae hyn yn debygol o gael mwy o effaith nag ychydig o sesiynau DDP ar ôl ysgol. Mae'n bosib y bydd gofyn i arbenigwr o'r fath wneud sylw hefyd ar wers ymchwil agored. Fodd bynnag, gall gorddibyniaeth ar hyn leihau annibyniaeth athrawon yn eu hymchwil am eu bod yn aros am y farn arbenigol.

Mae gwybodaeth arbenigol am y disgyblion penodol hefyd yn hanfodol. Mae Ffigur 4 yn awgrymu dull o ddadansoddi a rheoli'r cydbwysedd hwn o arbenigedd ar gyfer y canlyniadau gorau posibl.

Gwybodaeth arbenigol o'r **disgyblion hyn fel dysgwyr**

	ISEL	UCHEL
ISEL	Cynnwys arbenigwr pwnc er mwyn iddi/iddo ddeall anghenion dysgu'r disgyblion a'r athrawon	Cynnwys arbenigwr pwnc allanol yn y grŵp AG neu o leiaf fel cyngorydd i'r grŵp.
UCHEL	Cynnwys athro/athrawes gyda gwybodaeth flaenorol o'r disgyblion hyn yn y grŵp AG yn ogystal ag arbenigwr pwnc mewnol.	Cynnwys athrawon gydag arbenigedd yn y <i>ddau</i> ar y cychwyn; eraill i ymuno mewn Astudiaethau Gwers diweddarach.

*Hyd yn oed os ydy gwybodaeth o'r pwnc/disgyblion i'w weld yn dda, adolygwch ganfyddiadau pob cylch a gofynnwch "a fyddai mwy o arbenigedd o gymorth?"*

## e. Dysgu'r wers ymchwil gyntaf

*'Beth sy'n bwerus iawn yw bod pobl yn teimlo oherwydd eu bod wedi cynllunio gyda'i gilydd, roedd hi'n iawn pe bai'n mynd o'i le.'*

### Beth sy'n gweithio

Defnyddiwch y cynllunydd gwersi ymchwil ar y dudalen ganlynol, neu'n well fyth y Gweithlyfr Ymchwil Astudiaeth Gwers i gynllunio'r wers ymchwil. (Mae'n gweithio orau wedi'i chwyddo i faint A3). Mae hefyd yn gweithredu fel y ddalen arsylwi (os caiff ei chopïo a'i darparu i'r arsylwyr yn y wers ymchwil) a dyma'r pwynt cyfeirio allweddol ar gyfer y drafodaeth ar ôl y wers.

Esboniwch wrth eich disgyblion eich bod chi'n ceisio gwella'r ffordd rydych chi'n eu helpu i ddysgu a dyna pam mae yna dri athro yn arsylwi, gwneud nodiadau a siarad â rhai pobl ar ôl y wers. Esboniwch y byddwch chi'n rhannu gyda nhw beth rydych chi'n ei ddarganfod a chael eu barn.

Cymerwch ofal go iawn dros gydasesu'r camau y mae'r tri disgybl achos yn gweithio ynddynt. Gallwch gyfeirio at y deunyddiau Asesu Cynnydd Disgyblion. Mae'n bwysig iawn bod y grŵp yn ysgrifennu'n glir yr hyn maen nhw eisiau i bob disgybl allu ei wneud yn y maes ffocws erbyn diwedd y wers a'r hyn y byddant yn chwilio amdano fel tystiolaeth o hyn.

Gan fod y wers ymchwil wedi'i chynllunio ar y cyd, mae'n eiddo i'r grŵp i gyd. Mae hyn yn golygu bod y ffocws ar gyfer yr arsyllwyr yn llai ar yr athro a mwy ar y dysgwyr – yn enwedig y disgyblion achos. Dylen nhw gymryd tro yn y wers ymchwil gan dreulio peth amser fel pe baent yn canolbwyntio'n fanwl ar ddisgybl achos ac yna'n edrych yn fwy cyffredinol i ganiatáu sylwi ar grŵp mwy neu'r dosbarth cyfan ar adegau eraill.

Dylai arsyllwyr geisio dal sylw ar ymatebion y disgyblion achos ar wahanol bwyntiau yn y wers – a sut maen nhw'n cyfateb neu'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd ar y cam hwnnw. Sylwch hefyd ar unrhyw ddigwyddiadau tyngedfennol. Os oes patrwm cyffredin (e.e. mae pob disgybl achos wedi camddeall rhywbeth yn yr un ffordd) nodwch hynny yn y golofn ar y dde.

Rhowch yr amser nesaf at bob nodyn os gallwch chi.

Yn y casgliad, edrychwch am y dystiolaeth o gynnydd ar gyfer pob disgybl yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd a'r graddau y maent yn cael eu cyflawni. Beth yw'r prif bwyntiau ar gyfer y wers nesaf i'r disgyblion achos, eu grwpiau neu'r dosbarth? Beth efallai hoffech chi ofyn iddyn nhw yn eu cyfweiliad ar ôl y gwrs? Nodwch hyn o dan 'meddyliau cychwynnol' ar waelod y dudalen.

### Nodiadau

---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---

Er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i'ch grŵp Astudiaeth Gwers ddefnyddio 'sgwrs archwiliadol' i gynorthwyo 'cyd-weithio' dylech ddefnyddio 'rheolau siarad sylfaenol' (Mercer 2010) fel y rhai a nodir ar dudalen 17. Mae hyn yn llywodraethu'r drafodaeth ar ôl y wers ac mae angen dadansoddiad o ddysgu a ragwelir a gwirioneddol pob disgybl achos yn strwythur y drafodaeth.

Pan fyddwch yn dechrau'r sgwrs archwiliadol honno a'r dysgu 'sy'n canolbwyntio ar ystyr' mae'n cynhyrchu ymhlith y grŵp wrth i chi ddamcaniaethu am yr hyn a allai fod wedi gweithio'n fwy effeithiol ar bwyntiau penodol, rydych chi mewn gwirionedd yn dechrau cynllunio agweddau allweddol ar y wers ymchwil nesaf.



Taflen gynllunio, arsylwi a thrafod gwersi ymchwil		Pwnc	Ffocws Dysgu		Athro /arsyllwr		
Beth yn union yw'r wers ymchwil hon yn ceisio ei dysgu? (gall fod yn rhan o ddilyniant addysgu hirach) Erbyn diwedd y wers hon bydd disgyblion yn gallu ..... a chawn wybod hyn pan fydd..							
Pa dechneg dysgu neu addysgu yw'r wers ymchwil sy'n anelu at ei datblygu? Rydyn ni'n gobeithio gwella...							
Cyrhaeddiad presennol a Meini prawf llwyddiant Disgrifiwch yr hyn rydych yn chwilio amdano ohonynt erbyn diwedd gwersi yn yr agwedd a nodwyd	Disgybl achos .....		Disgybl achos B .....		Disgybl achos C .....		
	Maen prawf llwyddiant ar gyfer y ffocws hwn		Maen prawf llwyddiant ar gyfer y ffocws hwn		Maen prawf llwyddiant ar gyfer y ffocws hwn		
<b>Cam dilyniant gwersi</b>	Sut rydych yn rhagweld y bydd disgybl(ion) achos A yn ymateb	<i>Sut maen nhw'n ymateb</i>	Sut rydych yn rhagweld y bydd disgybl(ion) achos B yn ymateb	<i>Sut maen nhw'n ymateb</i>	Sut rydych yn rhagweld y bydd disgybl(ion) achos C yn ymateb	<i>Sut maen nhw'n ymateb</i>	Patrymau /materion
<b>Cam ...</b> (amser bras)							
<b>Cam ...</b> (amser bras)							
<b>Cam olaf ...</b> (amser bras)							
Beth roedden nhw'n gallu ei wneud? (Pa gynnydd maen nhw wedi'i wneud a sut ydych chi'n gwybod?)							
Meddyliau cychwynnol							

## f. Cyfweld disgyblion ar ôl gwera

### Beth sy'n gweithio

Yn aml iawn, bydd grwpiau Ymchwil Astudiaeth Gwers yn cyfweld â grŵp o ddisgyblion – a all gynnwys y disgyblion achos - wedi'r wers ymchwil i gael eu safbwyntiau ar yr hyn a weithiodd iddyn nhw, beth oedden nhw'n teimlo eu bod wedi'i dysgu a sut maen nhw'n credu y gellid newid gwera pe bai'n cael ei dysgu eto i ddsbarth arall er mwyn gwneud iddo weithio'n well fyth.

